Ardal Triniaeth Ddwys (IAA) - polisïau'r dyfodol

1. Diben y Papur Sefyllfa

Nod y papur hwn yw hysbysu Bwrdd y Rhaglen Dileu TB am ganlyniad adolygiad y polisi Ardal Triniaeth Ddwys. Mae llwyddiant y Rhaglen Dileu TB wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru symud ymlaen i strategaeth ranbarthol, sy'n pwysleisio'r mesurau goruchwylio a rheoli priodol yn ôl statws clefyd y rhanbarth hwnnw. Mae llawer o'r mesurau a ddefnyddiwyd yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yn wreiddiol wedi'u hesblygu i'w defnyddio ar raddfa genedlaethol erbyn hyn.

Felly, mae'n addas ystyried polisïau'r Ardal Triniaeth Ddwys at y dyfodol, sydd bellach yn rhan o ardal TB Uchel y Gorllewin. Byddwn yn cyflwyno papur cynghori i'r Gweinidog ar ôl i fwrdd y Rhaglen bwyso a mesur y sefyllfa.

2. Cefndir

Mae'r Ardal Triniaeth Ddwys oddeutu 288km² ac wedi'i lleoli'n bennaf yng ngogledd Sir Benfro, ond hefyd yn cynnwys rhannau bach o Geredigion a Sir Gâr.

Sefydlwyd yr Ardal Triniaeth Ddwys yn 2010 fel ardal lle byddai mwy o fesurau'n cael eu rhoi ar waith er mwyn taclo pob ffynhonnell o TB buchol, ymhlith rhywogaethau anifeiliaid domestig a gwyllt. Ar y pryd, yr Ardal Triniaeth Ddwys oedd â'r achosion uchaf yng Nghymru. Er mai dim ond 2% o'r holl arwynebedd tir oedd yr Ardal Triniaeth Ddwys, cafodd £1,747,764 o iawndal ei dalu i fuchesi ag achosion o TB yn 2011 - neu 13.7% o'r holl iawndal TB a dalwyd am wartheg a laddwyd ledled Cymru. Roedd y mesurau ychwanegol yn cynnwys:

- Dulliau ychwanegol o oruchwylio a rheoli gwartheg
- Mesurau bioddiogelwch gwell
- Gwaith goruchwylio a rheoli ychwanegol ar anifeiliaid nad ydynt yn fuchol (geifr a chamelidau)
- Prosiect brechu moch daear.

3. Asesu effeithiau'r mesurau cyfunol

Cynhaliwyd asesiadau blynyddol manwl gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) er mwyn cymharu'r lefelau o achosion o TB mewn buchesi a pharamedrau eraill clefyd TB o fewn ardal â thueddiadau hanesyddol ac mewn ardal gyfeirio lle mae modd cymharu'r darlun TB. Mae angen ystyried unrhyw fanteision/buddion a welwyd o ran lleihau nifer yr achosion o TB mewn buchesi (neu unrhyw baramedrau eraill clefyd TB) o ganlyniad i gyfuniad o'r mesurau rheoli clefyd a ddefnyddiwyd yn yr Ardal Triniaeth Ddwys. Roedd yr adroddiad diwethaf yn archwilio cyfnod o chwe blynedd, 1 Mai 2010 tan 30 Ebrill 2016. Ni chomisiynwyd unrhyw adroddiadau pellach, er bod Tîm Epidemioleg APHA wedi cyflwyno dadansoddiad blynyddol o'r clefyd yn yr Ardal Triniaeth Ddwys.

Mae'r dadansoddiad diweddaraf ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019.

- Ar y dechrau, roedd 88 o achosion agored yn yr Ardal Triniaeth Ddwys, mewn 325 o fuchesi (27.1% o fuchesi dan gyfyngiadau) ac ar ddiwedd Mawrth 2019 roedd 38 o waharddiadau mewn 269 o fuchesi byw (14.1%), sy'n golygu gostyngiad o 48% rhwng bryd hynny a nawr.
- Y ffigyrau cymharol ar gyfer yr ardal gyfeirio yw 142 o achosion agored mewn 1250 o fuchesi (11.4%) ar y dechrau, a 97 mewn tua 1130 o fuchesi (8.6%) ar ddiwedd Chwarter 1 2019, sy'n golygu gostyngiad o 23%.

Mae hyn yn dueddiadau calonogol sy'n cefnogi'r syniad bod yr ystod o fesurau a gyflwynwyd i'r Ardal Triniaeth Ddwys dros amser, wedi cael effaith gadarnhaol ar dueddiadau'r clefyd.

Bu'r adolygiad yn ystyried a ddylai'r dadansoddiad blynyddol a'r broses o greu adroddiad manwl barhau. Mae Swyddfa'r Prif Filfeddyg wedi ystyried y manteision a'r diddordeb a ddaeth yn sgil cyhoeddi'r asesiad blynyddol yn erbyn y gost. Mae Llywodraeth Cymru, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, milfeddygon swyddogol lleol a ffermwyr gwartheg yn yr Ardal Triniaeth Ddwys wedi gwneud cryn ymdrech ac wedi defnyddio llawer o adnoddau i leihau lefel y clefyd, ac mae'n bwysig dal ati i fesur yr effaith. Wrth drafod gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, rydym o'r farn bod hyn yn bosibl heb orfod paratoi adroddiadau blynyddol manwl.

Argymhelliad – Wrth drafod gyda Thîm Epidemioleg yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, rydym yn credu y dylem fonitro tueddiadau parhaus y clefyd, a bod modd gwneud hyn trwy asesu llai o baramedrau TB. Argymhellir bod Swyddfa'r Prif Filfeddyg yn parhau i weithio gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar y sail hon.

4. Adolygiad o fesurau goruchwylio a rheoli gwartheg yr Ardal Triniaeth Ddwys

Mae swyddogion Swyddfa'r Prif Filfeddyg, mewn cydweithrediad â'n partneriaid cyflawni yn yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, wedi cynnal adolygiad o'r mesurau a gyflwynwyd i fuchesi o fewn yr Ardal Triniaeth Ddwys.

O'r mesurau gwella gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Ardal Triniaeth Ddwys ym mis Mai 2010, dim ond profion chwe mis rheolaidd o'r fuches, olrhain gwartheg â statws heb TB swyddogol wedi'i atal (OTFS) a mwy o ddefnydd o brofion gama interfferon sy'n parhau. Mae'r mesurau eraill wedi'u disodli gan bolisïau cenedlaethol newydd llymach yn bennaf. Gweler y tabl canlynol

	Mesur	**Polisi a chyngor milfeddygol**
1	Profi buchesi bob chwe mis.	Cadw – ers eu cyflwyno, mae'r profion chwe mis ychwanegol (IA6) wedi bod yn gyfrifol am ddatgelu 24% o achosion newydd ar gyfartaledd. Yn 2018 (hyd at Ch3, nodwyd dros 40% o achosion newydd fel rhan o'r prawf chwe mis.
2	Mae pob achos angen dau brawf clir yn y fuches cyn codi'r gwaharddiadau	Disodlwyd yn 2012 gan bolisi cenedlaethol llymach ar gategorïau OTF(S) ac OTF(W) ar gyfer achosion o TB.

3	Olrhain symudiadau gwartheg o'r holl achosion o statws heb TB swyddogol wedi'i atal (OTFS). (Yn genedlaethol, dim ond anifeiliaid o achosion o statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW) sy'n cael eu holrhain a'u profi fel mater o drefn).	Dileu - ers 2015, mae llai na 2.5 % o'r achosion yn yr Ardal Triniaeth Ddwys wedi parhau â statws heb TB swyddogol wedi'i atal (OTFS) o'r dechrau i'r diwedd. Ni fu'n bosib casglu data o systemau APHA er mwyn asesu effaith y gwaith olrhain ychwanegol hwn, h.y. pa gyfran o'r anifeiliaid wedi'u holrhain gafodd brawf positif, ond o gofio cyn lleied o fuchesi a effeithiwyd, does fawr o fudd mewn cadw'r mesur hwn mwyach.
4	Rhaid rhoi gwybod i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain am holl symudiadau gwartheg i'r/o'r Ardal Triniaeth Ddwys a chydymffurfio â'r gofynion profi cyn symud (PrMT).	Cafodd newidiadau i ofynion PrMT yn yr Ardal Triniaeth Ddwys eu cysoni â'r rheolau a gafodd eu gweithredu yn sgil cyflwyno'r cytundebau Rheoli Cysylltiadau Tir Dros Dro (ILAM). O ganlyniad, cyflwynwyd rheolau cenedlaethol yn cyfyngu ar symudiadau da byw o fewn 10 milltir i'r prif ddaliad fel rhan o'r adolygiad o Rif y Daliad (CPH).
5	Mwy o ddefnydd o g-IFN (profion g-IFN)	Cadw. Dylid nodi bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o g-IFN fel prawf diagnostig atodol ar hyd a lled Cymru.
6	Cynnal asesiad bioddiogelwch blynyddol er mwyn lleihau'r risg o gyflwyno'r clefyd.	Cafodd asesiadau bioddiogelwch penodol i'r Ardal Triniaeth Ddwys eu disodli gan bolisi cenedlaethol Cymorth.
7	Rheolaethau anifeiliaid nad ydynt yn fuchol	Wedi'u disodli gan bolisi cenedlaethol gwell o brofion adweithiol.

Argymhelliad – Argymhellir parhau â'r profion 6 misol, a'n bod yn parhau i wneud yn fawr o'r profion gama interfferon.

5. Arolwg o foch daear marw yn yr Ardal Triniaeth Ddwys

Ers mis Mehefin 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal yr arolwg hwn yn yr Ardal Triniaeth Ddwys. Roedd hyn yn ofynnol er mwyn darparu gwybodaeth am lefel yr heintiad *M. bovis* ymhlith moch daear yr ardal. Cafodd adroddiadau blynyddol penodol eu cynhyrchu gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion hyd at fis Ebrill 2017. Mae'r gwaith o gasglu moch daear marw a welwyd o fewn yr Ardal Triniaeth Ddwys wedi parhau fel rhan o arolwg Cymru gyfan, er bod y niferoedd wedi lleihau ers hynny.

Dyma grynodeb o ganlyniadau'r arolwg o foch daear marw:

	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Nifer a gasglwyd ac a oedd yn addas i'w samplu	37	30	31	25	12	6	7
Nifer wedi'u profi'n bositif am *M. bovis*	7 (19%)	2 (7%)	2 (6%)	1 (4%)	1 (8%)	2 (33%)	0 (0%)

Roedd nifer y moch daear a archwiliwyd yn fach dros holl flynyddoedd yr astudiaeth, ac mae'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd. Felly, does dim modd penderfynu a fu unrhyw newid yng ngwir gyfraddau'r haint gyda straen o *M. bovis* ymhlith moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yn ystod cyfnod yr astudiaeth.

Argymhelliad – Argymhellir ein bod yn parhau i gasglu moch daear marw yn yr Ardal Triniaeth Ddwys er mwyn monitro lefel yr haint *M. bovis* ym moch daear yr ardal, fel rhan o arolwg Cymru gyfan.

6. Brechu moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys

Dechreuodd y prosiect brechu moch daear ym mis Mai 2012, ac fe'i cynhaliwyd ochr yn ochr â'r mesurau gwartheg cyfredol. Yn unol â chyngor ac arferion gorau ar y pryd, sefydlwyd prosiect 5 mlynedd tebyg i'r un a gyflwynwyd gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar gyfer *Badger Vaccine Deployment Project* er mwyn cyflawni polisi brechu effeithiol mewn Ardal Triniaeth Ddwys.

Erbyn Tachwedd 2015, roedd gwerth pedair blynedd o'r rhaglen frechu wedi'i chwblhau. Ar y pwynt hwnnw, daeth i'r amlwg fod y cyflenwad o frechlyn BCG moch daear wedi'i atal oherwydd problemau cynhyrchu, gan fod prinder byd-eang o'r brechlyn BCG safonol a ddefnyddir mewn pobl. Penderfynwyd atal yr holl bolisïau brechu moch daear nes bod yr holl gyflenwadau wedi'u hadfer.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r broses o gyflawni'r prosiect brechu moch daear mewn Ardal Triniaeth Ddwys.

Blwyddyn	Wedi'u brechu	Wedi'u hail-ddal	Cyfanswm	Cost
2012	1424	320	1744	£945K
2013	1352	500	1852	£926K
2014	1316	517	1833	£929K
2015	1118	432	1550	£922K
Total	**5210**	**1769**	**6979**	£3722K

Er mwyn ein helpu i ddeall yn well effaith atal rhaglen frechu moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yn 2016, comisiynwyd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i fodelu efelychiadau o effaith brechu moch daear ar achosion o TB buchol mewn moch daear a gwartheg. (MA-P/RE/1052/16).

Casgliad cyffredinol yr efelychiad oedd hyn - heb gwblhau pumed flwyddyn, bod y pedair blynedd o waith a gyflawnwyd eisoes wedi sicrhau'r budd mwyaf o ran lleihau'r achosion o TB moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys. Mae pob blwyddyn ychwanegol o frechu parhaus yn lleihau'r achosion o TB moch daear ymhellach, er wedi pedair blynedd, bod mantais absoliwt pob blwyddyn ychwanegol o'r brechlyn yn llai nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Er mwyn cael amcangyfrif mwy cywir o gyfran y moch daear a frechwyd yn ystod y pedair blynedd, comisiynwyd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i gynnal asesiad poblogaeth a chymhariaeth. Roedd gwaith modelu'n seiliedig ar ganlyniadau DNA o samplau o flew moch daear a gasglwyd o ffau a gafodd eu cymharu gyda rhai moch daear wedi'u dal, yn amcangyfrif y gallai 70-85% o'r holl boblogaeth fod wedi derbyn o leiaf un dos o'r brechlyn erbyn diwedd yr ymgyrch frechu pedair blynedd, gan gymryd bod lefel cyson o gwmpas blynyddol yn cyfateb i'r un a welwyd yn 2015.

7. Pumed flwyddyn brechu moch daear

Roedd brechlyn BCG safonol (BCG Sofia wedi'i chynhyrchu gan Interfax) ar gael yn 2018 eto, ac fe'i defnyddiwyd fel rhan o waith trapio a chynnal profion moch daear ar ffermydd ag achosion parhaus o TB, lle cafodd moch daear negatif a ddaliwyd gan drap eu brechu cyn eu rhyddhau, ac mewn cynlluniau brechu â chymorth grant. Mae gan Lywodraeth Cymru stoc ddigonol o BCG Sofia ar gyfer holl weithgareddau brechu a gynlluniwyd ar gyfer 2019. Mae brechlyn BCG penodol i foch daear, a gynhyrchwyd gan A J Vaccines ar gael, ac eisoes yn cael ei defnyddio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Lloegr. Bydd Llywodraeth Cymru'n archebu'r brechlyn ar gyfer 2020, mewn cydweithrediad â DEFRA.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi cadw rhywfaint o'r cyfleusterau a'r cyfarpar a gafaelwyd ar gyfer prosiect brechu moch daear yr Ardal Triniaeth Ddwys, mae llawer o strwythur cyflawni'r prosiect wedi'i datgomisiynu. Cafodd y staff maes a gyflogwyd ar sail dymhorol eu hatal o'u gwaith yn unol â rheolau cyflogaeth y llywodraeth, daeth contractau llogi cyfarpar a cherbydau i ben yn gynnar, ac mae aelodau o'r tîm rheoli bellach wedi'u cyflogi y tu allan i Swyddfa'r Prif Filfeddyg.

Hefyd, cofiwch ein bod ni bedair blynedd ymlaen wedi blwyddyn ola'r rhaglen brechu, ac efallai na fyddai unrhyw effaith fanteisiol cwblhau'r bumed flwyddyn mor amlwg pan gynhaliwyd y gwaith modelu.

Mae'r opsiynau sydd ar gael o ran cwblhau'r bumed flwyddyn wedi'u cyfyngu i naill ai:

- Dychwelyd at brosiect dan law'r llywodraeth a rhoi'r strwythur gyflawni yn ôl ar waith gan gynnwys cyflogi'r gweithwyr maes, neu
- Contractio'r gwaith trwy broses gaffael agored a theg.

Waeth pa opsiwn a gaiff ei ddewis, bydd yn costio ymhell dros £1 filiwn o bunnoedd i gwblhau'r prosiect am flwyddyn arall erbyn hyn.
Argymhelliad – Yn seiliedig ar yr opsiynau hyn, ac o ystyried y manteision a welwyd eisoes, y bwlch amser ers cwblhau'r bedwaredd flwyddyn, diffyg strwythur gyflawni a'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, rydym yn argymell peidio â dychwelyd i gwblhau pumed flwyddyn rhaglen brechu moch daear.

Dylid nodi bod grant brechu moch daear ar gael yng Nghymru, gan gynnwys Ardal Triniaeth Ddwys, sy'n caniatáu i ymgeiswyr llwyddiannus dderbyn hyd at 50% o'r costau cymwys.

8. Cyfathrebu

Nid oes unrhyw gysylltiadau cyfathrebu penodol wedi'u parhau gyda thirfeddianwyr, ceidwaid gwartheg, milfeddygon na'r undebau amaethyddol yn yr Ardal Triniaeth Ddwys ers rhoi gwybod iddynt fod y prosiect brechu wedi'i atal. Mae polisïau Llywodraeth Cymru wedi esblygu ers hynny, a'r negeseuon wedi canolbwyntio ar bolisïau cenedlaethol yn sgil cyflwyno a sefydlu mesurau rheoli rhanbarthol. Bydd yn anodd cysylltu â'r holl dirfeddianwyr, gan nad ydym wedi cadw manylion y rhanddeiliaid, yn enwedig perchnogion tir preifat nad ydynt yn cadw da byw.

Argymhelliad:

- Gan fod yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn cadw cofnodion o'r ceidwaid gwartheg, byddai'n briodol i'r Asiantaeth roi gwybod iddynt am y newidiadau a'r defnydd parhaus o'r prawf gwyliadwriaeth chwe mis.
- Rhoi cyhoeddusrwydd cyffredinol i'r newidiadau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru.

9. Crynodeb o'r argymhellion

1. Byddwn yn parhau i asesu'r darlun cyffredinol o'r clefyd yn yr Ardal Triniaeth Ddwys ac yn adrodd ar y cynnydd gan ddefnyddio set symlach o baramedrau TB.

2. Parhau â'r prawf gwyliadwriaeth chwe mis ychwanegol yn yr Ardal Triniaeth Ddwys a defnyddio'r prawf gama interfferon i'r eithaf.

3. Parhau i gasglu moch daear marw yn yr Ardal Triniaeth Ddwys a chynnwys y canlyniadau yn adroddiad Cymru gyfan.

4. Peidio â dychwelyd i gwblhau pumed flwyddyn rhaglen brechu moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys.

5. Rhoi gwybod i berchnogion gwartheg yr Ardal Triniaeth Ddwys am y newidiadau a'r penderfyniad i barhau â'r profion gwyliadwriaeth 6 mis o fuchesi.

6. Cyhoeddi'r newidiadau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru.